**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

8 Tachwedd 2021

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol**

Ysgrifennaf atoch fel ymateb i'ch llythyr dyddiedig 2 Tachwedd ynglŷn â'r fersiwn ddiwygiedig o'r cytundeb ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol Llywodraeth Cymru. Rwy'n hapus gyda'r fersiwn ddiwygiedig, ac rwy'n ddiolchgar am y gwaith a wnaed ar y cyd gan ein swyddogion ar y mater hwn.

Gofynasoch hefyd imi ystyried sut y gall Gweinidogion Cymru hysbysu'r Senedd ynghylch pryd y maen nhw'n bwriadu rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru, neu eu bod wedi rhoi cydsyniad o'r fath.

Gallaf gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu i'ch pwyllgor a phwyllgorau perthnasol eraill i roi gwybod iddynt am fwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru, gan egluro'r sail resymegol dros y bwriad i roi cydsyniad. Pan fydd amser yn caniatáu, byddwn yn rhoi cyfle i'r Senedd fynegi barn cyn y rhoddir cydsyniad yn ffurfiol. At hynny hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn gosod Datganiad Ysgrifenedig bob tro y bydd Gweinidogion Cymru wedi cydsynio i Weinidog Llywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn perthynas â maes datganoledig, gan egluro'r sail resymegol dros y cydsyniad hwnnw, fel arfer cyn pen tri diwrnod gwaith o ddyddiad gosod gerbron neu hysbysu Senedd y DU.

Yn gywir,

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.